# Prosiect Gwybodaeth Brechu



Rydyn ni'n gweithio gyda'r **Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy** a'r **Tîm Anabledd Dysgu** yn **Iechyd Cyhoeddus Cymru.**

Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd ar brosiect newydd i:



- darganfod beth mae pobl gydag anabledd dysgu yn feddwl am **frechlynnau** a chael **brechlynnau**






**Brechlyn** ydy'r ffordd rydyn ni'n brechu rhywun i'w diogelu nhw rhag clefydau penodol.

Mae **brechlyn** yn feddyginiaeth sydd yn helpu eich corff i ymladd clefydau i'ch cadw chi'n ddiogel rhag mynd yn sâl iawn.



- A defnyddio beth rydyn ni wedi ei ddysgu i greu gwybodaeth sydd yn helpu pobl gydag anabledd dysgu i wneud dewisiadau gwybodus



Fe fydd y prosiect yma yn edrych ar yr **holl frechlynnau**, yn cynnwys **brechlynnau** yn ystod plentyndod, **brechlynnau** sydd yn cael eu rhoi ar oedrannau arbennig, y **brechlyn** ffliw a'r **brechlyn** COVID.

Gyda'r gwaith yma fe fydd Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn rhedeg 2 arolwg:



- Arolwg i ofalwyr pobl gydag anabledd dysgu.



- Arolwg i gyrff sydd yn cefnogi pobl gydag anabledd dysgu.

# Nod y prosiect yma

Rydyn ni eisiau darganfod:




- Beth mae pobl yn ei wybod ac yn ei feddwl am **frechlynnau**.



- Os ydy pobl yn poeni am gael eu **brechu** neu i gael **brechlynnau** ac os felly, beth sydd yn gwneud iddyn nhw boeni.



- Beth sydd yn helpu pobl i gael eu **brechlynnau**.




- Pa wybodaeth sydd ar gael i bobl am **frechlynnau**. Ac o lle mae pbo yn cael eu gwybodaeth.



- Sut fyddai pobl yn hoffi cael gwybodaeth am **frechlynnau**.



Fe fyddwn ni yn defnyddio beth rydyn ni wedi ei ddysgu i wneud gwybodaeth yn hawdd ei ddeall i helpu pobl gydag anabledd dysgu i wneud penderfyniadau gwybodus.

# Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud



Rydyn ni'n mynd i siarad gyda:

- Pobl gydag anabledd dysgu
- Teulu a gofalwyr di-dâl
- Pobl sydd yn gweithio gyda phobl gydag anabledd dysgu.

Drwy mis Chwefror a mis Mawrth 2023, rydyn ni'n mynd i:




- Cael 4 grŵp ffocws wyneb yn wyneb i bobl gydag anabledd dysgu.



- Cael 2 grŵp ffocws i bobl gydag anabledd dysgu a fydd yn digwydd ar-lein.



- Holi teulu a gofalwyr di-dâl a phobl sydd yn gweithio gyda phobl gydag anabledd dysgu.




- Gofyn i bobl gydag anabledd dysgu lenwi arolwg hawdd ei ddeall ar-lein. Fe fydd yr arolwg ar gael rhwng **dydd Mercher 15 Chwefror 2023** a **dydd Gwener 3 Mawrth 2023**.



Fe fydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru eu harolygon nhw rhwng **dydd Llun 16 Ionawr 2023** a **dydd Gwener 24 Chwefror 2023**.

Mae'r arolwg i ofalwyr ar gael yma.

Mae'r arolwg i bobl sydd yn gweithio i gyrff cefnogi ar gael yma.



Mae gennym ni grŵp llywio prosiect fydd yn goruchwylio gwaith y prosiect yma. Mae'r grŵp llywio yn cynnwys:

- Pobl gydag anabledd dysgu
- Staff o Anabledd Dysgu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Pobl sydd yn gwneud ymchwil
- Pobl sydd yn gweithio gyda phobl gydag anabledd dysgu
- Pobl gyda gwahanol brofiadau bywyd, o wahanol gefndiroedd.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'n canfyddiadau



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda'n grŵp llywio i gytuno ar beth rydyn ni wedi ei ddarganfod ac ysgrifennu adroddiad am beth rydyn ni wedi ei ddysgu.



Fe fyddwn ni yn nodi pa fath o wybodaeth mae pobl gydag anabledd dysgu yn ei hoffi. Er enghraifft, posteri, fideos neu daflenni.



Yna fe fyddwn ni yn gweithio gyda phobl gydag anabledd dysgu i greu adnoddau gwybodaeth i'w helpu nhw i wneud penderfyniadau gwybodus am **frechlynnau**.

# Rhagor o wybodaeth




Fe fyddwn ni yn diweddaru'r wefan yma gyda newyddion diweddaraf am y prosiect.

Am unrhyw wybodaeth bellach cysylltwch gyda Laura Griffiths, Anabledd Dysgu Cymru:



**E-bost:** Laura.griffiths@ldw.org.uk

**Ffôn:** 029 2068 1160

**I gael gwybodaeth am frechlynnau yng Nghymru ewch i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru os gwelwch yn dda:** icc.gig.cymru/Brechlynnau